# MARWNAD,

A R

# FARWOLAETH

Y PARCHEDIG

## *EDMUND JONES*,

Gynt Gweinidog yr Efengyl

Yn EBENEZER, gerllaw PONT-Y-POOL:

Yr hwn a gasglwyd at ei Dadau mewn Henaint têg, y 26 o Fis *Tachwedd* 1793, yn 91 Oed, wedi bod yn y Weinidogaeth 70 o Flynyddau.

---

Gan JOHN THOMAS,
GWEINIDOG yr EFENGYL.

---

HEB. xiii. 7.

*Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw: ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt.*

---

*CAERFYRDDIN*,
Argraphwyd gan I. DANIEL, yn *Heol-y-Farchnad*.
M.DCC.XCIV.

WG35.5-46
ESTC E18 1497
X205 31085X
LW 4857

# MARWNAD, &c.

1 BETH yw'r newydd glywais heddy',
Am hen ffyddlon was i'r Iesu!
Y duwiol *Edmund Jones* aeth ynte'
Ar ol y cwmp'ni tu ag adre':
Mewn henaint teg, yn llawn o ddyddiau,
Fe ga'dd ei gasglu at ei dadau;
Ei enaid mae, yn ddiau,
Ymhlith y rhai sy'n gorphwys
Yn y nefol hardd baradwys,
Ymhlith yr orfoleddus eglwys.

2 Ca'dd weled llawer oedd e'n 'nabod,
Yma ar eu pererindod,
Gyd â nefol hardd gwmpeini,
O hen dduwiolion wedi blaenu;
Oll yn gwisgo eu gynnau gwynion,
Yn holl iach ar fynydd Sion;
Bawb mewn hedd, draw i'r bedd,
Yn gweled gwedd wyneb
Arglwydd bywyd, mewn disgleirdeb,
Canu iddo glod mewn undeb.

3 Rhoddwyd iddo yn dra helaeth,
Yr Ysbryd gynt o brophwydoliaeth;
Fel hen brophwyd fe a dd'wedai,
Ymlaen llaw, am amryw bethau;

Glyn-

Glynai wrth ddarllain, doeth a duwiol,
Yn ei 'mofyniadau'n fanol:
Pwyfig iawn yn ei ddawn,
'R oedd e'n llawn cariad,
Diwyd, manol, hardd ei rodiad,
Fe ga'i barch gan bawb ymhob gwlad.

4 Llawn o fylwedd oedd ei enaid,
Fel un o'r hen Buritaniaid,
Hardd ei fywyd, mawr mewn gweddi,
Fel hen Dad yn eglwys Iefu;
Goftyngedig a fylweddol,
Rhodiai gyd â Duw'n feunyddiol;
Gwrando'n fwyn wnae ar gŵyn
Yr ŵyn, fabanod bronnau,
Ac yn ebrwydd fe gynhaliai,
Y rhai gweinion eu meddyliau.

5 Trwy Loegr, Cymru, bu'n trafaelu,
Gan gadarnhau difgyblion Iefu;
A thrwy bob gwledydd y trafaelai,
Gadawai'n ol ryw ber-aroglau:
Cadarn ydoedd ei lythyrau,
Aent ymhell mewn amryw fannau;
'R oedd e' â llaw yma a thraw,
Yn ddifraw yn plannu
Yr apoftolaidd wir eglwyfi,
Am wel'd gwir grefydd yn ymdannu.

6 'Nawr mae wedi myn'd i orphwys,
O'r tŷ o glai fe 'hedai'n gymmwys,
I artrefu yn nhrag'wyddoldeb,
Lle mae'r brodyr oll mewn undeb;
Gadawai gorph yr hen farwolaeth,
I fyn'd i lawr i lygredigaeth;

Dan lawenhau 'hedai'n glau
At y rhai dedwydd,
Sy'n waſtadol gyd â'r Arglwydd,
O fewn tre' Caerſalem Newydd.

7 Cyn ymadael, fe a dd'wedai,
" Mae 'mhechodau gwedi maddeu;
" Nid oes arnaf ofn marw,
" Mae im' Geidwad i fy nghadw:
" Ymdrech dêg mi a ymdrechais,
" Y ffydd hefyd mi a gedwais;
" Mi wn mwy, dan fy nghlwy',
" I bwy y credais,
" Fy nghyrfa, bellach, mi orphenais,
" Yn llawn gorfoledd."—Dyma'i gyffes.

8 Un mil ſaith cant, naw deg hefyd,
Tair o flwyddau yr un ffunud,
Ydoedd oedran y Meſſia,
Pan aeth *Jones* i ben ei yrfa:
Naw deg ac un flwydd hefyd ydoedd
Ei oed yntef, pan yr hunodd,
Dan ymgryfhau 'hedeg wnae,
O'r tŷ o glai i'r bywyd,
I fynwes Abra'm ca'dd ei ſymmud,
O wlad gwae i ganol gwynfyd.

9 Wrth *Ebenezer* rhowd ef i orwedd,
Ar bwys ei wraig mewn daear oeredd;
Ac ar y chweched dydd ar hugain
O fis *Tachwedd*, dan dywarchen,
Yno i gyſgu hun yn dawel,
Ne's llefo'n uchel yr archangel;
Yn ddifraw cyfyd draw,
Maes o law etto,

Heb

Pan delo'r ſeintiau 'nghyd yn gryno,
Heb mwyach iddynt byth ymado.

10 Trigolion *Pont-y-pool*, a'i chylchoedd,
Cofiwch bawb y modd y rhodiodd;
A'i gyn'lleidfa etto'n rhagor,
Dilynwch ffydd eich tad a'ch blaenor,
Duw a gyfyd rai ar fyrder,
I lanw ei le yn *Ebenezer*;
Ni fydd trai ar y rhai
Sydd dan iau'r Ieſu,
Fe gaiff llewod rheipus drengu,
Cyn bo eiſiau ar y rhei'ny.

11 Ti gyrhaeddaiſt ben dy ſiwrnau,
A'n gadael ninnau rhwng y tonnau,
Fel yr ŵyn ynghanol bleiddiaid,
Cwrdd ag ambell ſtorom galed;
Gan y cŵn yn cael ein hela,
Cyfarth arnom am y cynta';
Dewn i'r lan, yn y man,
I gael rhan o'ch gwleddau,
Yn y nefol hardd drigfannau,
Lle try'n galar yn ganiadau.

12 O gwyn eich byd ſydd wedi gorphen,
Ar eich gyrfa 'nawr yn llawen,
A ninnau'n teithio'n erbyn tylau,
Ar gael ein llethu dan ein beichiau;
Tonnau ar ol tonnau'n curo,
Mewn anialwch bron diffygio;
Ai ffordd hyn i ben y bryn,
Cyn hyn, 'raethoch chwithau,
Sy'n awr yn gwiſgo'ch hardd goronau,
Wedi ſychu'n lân eich deigrau?

13 A ydych chwi, ſy ar ben yr yrfa,
Yn cofio am danom ni ſydd yma,
Y rhai a adawſoch mewn anialwch,
A byd o wae ſy'n llawn o driſtwch?
Ai cyd-ymdeimlo a hiraethu
Yr ydych yna am ein cwmp'ni?
Yn y ne' y mae lle,
Trigfannau newydd,
Ni bydd y corph yn gyflawn ddedwydd,
Ne's delo'r holl aelodau i fynydd.

14 Pan gwrddo'r ſeintiau fry ac yma,
Rhyfedd fydd yr haleluia!
Yr eglwys fry ſydd orfoleddus,
Ynghyd â'r eglwys filwriaethus;
Oll yn gwiſgo eu gynau gwynion,
Yn holl iach ar fynydd Sion;
Ieſu, gwel yn ddi-gel,
O'i drafael yn gryno,
A phob rhai yn peraidd ſeinio,
Trag'wyddol glod a moliant iddo.

15 Pa un ai haf, neu ynteu gaua',
Sydd i ddyfod arnom yma,
Pan mae Duw'n caſglu yr hen dadau,
Am y cyntaf tu ag adre'?
A ydyw'r Jubil fawr ar ddyfod?
Neu ynteu, cafod o drwm drallod?
F'enaid taw maes o law,
Diwygiad ddaw etto,
Mae'r amſer hyfryd wedi gwawrio,
I'r hen ddiafol gael ei rwymo.

16 Mae amryw wedi codi eu cefnau,
Oddiwrth eu gwaith, fyn'd tu ag adre',

Glyn-

Glynwch wrthi, weision Iesu,
Fel o'u llwch sydd wedi codi;
Mae hen babel ar ei gogwydd,
Hi gwymp ar fyr, hyn sydd y newydd;
Fe ddaw'r ha' hyfryd bra',
Cynhaua'r Iesu,
Atto 'hed rhyw dorf aneiri',
Fel colommenod i'w ffenestri.

17 Mae gweddiau dan eu gwreiddiau,
Amryw'n saethu at eu muriau;
Deliwch atti, frodyr, etto,
Daw'r awr yn fuan iddi syrthio;
A phan y clywir hyn o newydd,
Bydd nef a dae'r yn llawn llawenydd;
Nefoedd fry a'i holl lu,
Pob llwythi yma
Yn moliannu am yr ucha',
Yr Oen fu farw ar Galfaria.

18 Ni fydd ond plant y golledigaeth,
Yn myned dan yr ail farwolaeth;
A'r prynedigion fry yn canu,
Heb un o honynt wedi golli;
Y rhai, trwy waed y groes, a brynwyd,
Ac ynghyflawnder amser alwyd
Oll yn nhre' gyd ag e';
O hyfryd le dedwydd!
Byw'n drag'wyddol gyd â'r Arglwydd,
Ei garu a'i foli yn dragywydd.

19 Cyrph y seintiau gŵyd yn flaena',
Oll o'u beddau am y cynta',
I gyfarfod â'u heneidiau,
Dônt ynghyd o bob rhyw fannau;

I fod

I fod ar ddehau'r Ieſu'n dyſtion,
Yn erbyn torf o annuwiolion;
Rhai fyddant ſarn ddydd y farn,
I'w cadarn glymmu,
I fyn'd at ddiafol byth i boeni,
Yn y tywyllwch eithaf obry.

20 Yna'n ebrwydd cyfyd Ieſu,
Ynghyd â'i ddiſglair dorf aneiri',
Dan lawenhau hwy ant i'r deyrnas
A bar'towd iddynt oll mewn urddas;
Y briodasferch fydd pryd hynny
Yn ei llawn drwſiad gyd â'r Ieſu;
Hardd ei gwedd, a mewn hedd,
I'r wledd, gyd â'i phriod;
Ar fyr mae'r boreu ddydd yn dyfod,
O Arglwydd, bryſia'r hardd gyfarfod!

---

## H Y M N.

1 Y Pererinion glân
Aeth gynt i ben eu taith,
Sy'n uchel iawn eu cân,
Yn nhrag'wyddoldeb maith;
Mae rhai'n i gyd 'nawr gyd â Duw,
Mewn hedd yn byw, O gwyn eu byd!

2 O rhedwn ar eu hol,
Dilynwn ol eu traed,
Ne's d'od i'w gynnes go'l,
Fry ynghynteddau'n Tad,
I uno gyd â'r tanllyd lu,
O fewn i dref Caerſalem fry.

D I W E D D.